



UCHAFBWYNTIAU

Statws byd-eang Cnydau Biotec/GM Masnachol: 2010

gan Clive James, Sefydlydd a Chadeirydd ISAAA

Dros 1 Biliwn Hectar o Gnydau Biotec Bellach

2010 oedd pymthegfed pen-blwydd masnacheiddio cnydau biotechnolegol, 1996-2010.

Cyrhaeddodd nifer yr hectarau wedi'u crynhoi rhwng 1996 to 2010 dros 1 biliwn hectar (sy'n cyfateb i arwynebedd eang yr UD neu Tsieina), gan ddangos yn glir bod cnydau biotec wedi ennill eu plwyf.

Cafwyd y cynnydd mwyaf erioed, o 87 gwaith, yn yr hectarau rhwng 1996 and 2010 gan wneud cnydau biotec y rhai cyflymaf i gael eu derbyn a'u defnyddio yn hanes amaethyddiaeth fodern.

Golygodd y cynnydd mawr o 10% (digidau dwbl bellach) yn 2010, sef 148 miliwn hectar, mai dyma'r cynnydd ail fwyaf mewn 15 mlynedd. Tyfodd y nodweddion- hectarau o 180 miliwn hectar yn 2009, i 205 miliwn hectar yn 2010; sef cynnydd o 14%, neu 25 miliwn o hectarau.

Saethodd nifer y gwledydd sy'n tyfu cnydau biotec i 29, y mwyaf erioed gan godi o 25 yn 2009. Dyma'r tro cyntaf i'r 10 gwlad uchaf dyfu dros 1 miliwn hectar yr un. Y mae mwy na hanner poblogaeth y byd, 59% neu tua 4 biliwn o bobl, yn byw yn y 29 gwlad sy'n plannu cnydau biotec.

Adroddwyd bod tair gwlad newydd, sef Pacistan, Myanmar a Sweden, wedi plannu cnydau biotec yn swyddogol am y tro cyntaf yn 2010, a'r Almaen wedi aildechrau gwneud hynny.

O'r 29 gwlad cnydau biotec yn 2010, roedd 19 yn wledydd sy'n datblygu a dim ond 10 ohonynt yn wledydd diwydiannol. Yn ogystal â hynny, roedd 30 gwlad arall yn mewnfurio cynnyrch cnydau biotec. Felly dyma gyfanswm o 59 gwlad yn cymeradwyo defnyddio cnydau biotec, naill ai ar gyfer plannu neu fewnfurio. Y mae 75% o boblogaeth y byd yn byw yn y 59 gwlad yma.

Yn 2010, tyfodd mwy nag erioed o ffermwyr, 15.4 miliwn i gyd, gnydau biotec. Sylwer bod dros 90%, neu 14.4 miliwn, yn ffermwyr prin eu hadnoddau mewn gwledydd sy'n datblygu. Y mae nifer y ffermwyr sy'n manteisio yn ymddangos yn is oherwydd y manteision eilaidd a ddaeth i dyfu cnydau confensiynol yn sgil datblygiadau cnydau biotec. Y mae'n rhyfeddol bod ffermwyr ledled y byd wedi dewis gwneud 100 miliwn penderfyniad annibynnol i blannu ac ailblannu cnydau biotec bob blwyddyn, oherwydd y budd sylweddol a gynigiant

Tyfodd y gwledydd sy'n datblygu 48% o gnydau biotec y byd yn 2010. Bydd nifer eu hectarau yn uwch na hectarau'r gwledydd diwydiannol cyn 2015. Roedd twf biotec yn uwch mewn gwledydd sy'n datblygu; 17% neu 10.2 miliwn hectar, o'i gymharu â 5% neu 3.8 miliwn hectar mewn gwledydd diwydiannol.

Tsieina ac India yn Asia, Brasil a'r Ariannin yn America Ladin a De Affrica ar gyfandir Affrica yw'r pum gwlad flaenaf o ran tyfu cnydau biotec ymhlith y gwledydd sy'n datblygu.

Cynyddodd Brasil, y wlad sy'n gyrru'r twf yn America Ladin, nifer yr hectarau o gnydau biotec fwy nag unrhyw wlad arall drwy'r byd sef, 4 miliwn. Dyma'r cynnydd mwyaf erioed.

Yn Awstralia, cafwyd adferiad mewn cynydu biotec wedi sychdwr am sawl blwyddyn gan roi'r cynnydd cyfraneddol mwyaf o 184%, gan gyrraedd 653,000 hecтар.

Burkina Faso oedd â'r cynnydd cyfraneddol ail fwyaf o 126%. Yno gwelwyd 80,000 o ffermwyr yn plannu gymaint â 260,000 hecтар, sy'n cyfateb i 65% yn y gyfradd dderbyn.

Yn Myanmar, plannodd 375,000 o ffermwyr bychain 270,000 hecтар gotwm Bt, sy'n golygu i 75% ei dderbyn ar gyfer tyfu yr holl gotwm yn y wlad.

Yn India, parhaodd twf serenaidd am y nawfed flwyddyn, lle tyfodd 6.3 miliwn o ffermwyr 9.4 million hecтар o gotwm Bt; sef cyfradd o 86% yn defnyddio cynydu biotec.

Llwyddodd Mecsico i gynnal cyfres gyntaf o arbrofion ar dyfu India-corn biotec allan yn y maes.

Tyfodd wyth gwlad yr UE India-corn Bt neu datws startsh "Amflora", a gymeradwyodd yr UE yn ddiweddar - y tro cyntaf i blannu gael ei gymeradwyo yn yr EU ers 13 blynedd.

Am y tro cyntaf, roedd cynydu biotec yn cynrychioli cymaint â 10% o'r 1.5 biliwn hecтар o dir tyfu cynydu'r holl fyd. Y mae 50% o dir tyfu cynydu'r byd yn y 29 gwlad sy'n tyfu cynydu biotec yn 2010.

Y mae nodweddion lluosog yn agwedd bwysig ar gnydu biotec. Plannodd 11 gwlad gnydu biotec gydag o leiaf ddwy nodwedd yn 2010. Roedd 8 o'r rheiny'n wledydd sy'n datblygu. Yn 2010 roedd 32.2 miliwn hecтар neu 22% o'r 148 miliwn hecтар yn cynnwys nodweddion lluosog.

Rhwng 1996 a 2009, cyfrannodd cynydu biotec at Gynladwyedd a Newid Hinsawdd drwy gynyddu cynnyrch cynydu a'i werth o 65 biliwn \$UD; gan ddarparu gwell amgylchedd, arbed 393 miliwn kg a.i. o blaleiddiaid; yn 2009 yn unig golygai leihau'r CO₂ sy'n cael ei ryddhau o 18 biliwn kg; sy'n cyfateb i dynnu tua 8 miliwn o geir oddi ar y ffordd, diogelu bioamrywiaeth drwy arbed 75 miliwn hecтар o dir, a chynorthwyo i liniaru tloidi drwy helpu 14.4 miliwn o ffermwyr bychain sydd ymhlith pobl dlotaf y byd.

Y mae angen dirfawr am systemau rheoleiddio cost/amser priodol a fydd yn gyfrifol, trwyadl ond heb fod yn feichus ar gyfer gwledydd bychain a thlawd sy'n datblygu.

Amcangyfrifwyd bod hadau biotec yn unig yn werth 11.2 biliwn \$UD yn 2010, a gwerth India corn biotec masnachol, grawn ffa soya a chotwm yn werth 150 biliwn \$UD y flwyddyn.

Mae'r rhagolygon am y dyfodol yn edrych yn galonogol am y pum mlynedd nesaf: India-corn sy'n goddef sychdwr yn 2012; Reis Euraid yn 2013; reis Bt un o Nodau Datblygu'r Mileniwm (MDG) ar gyfer 2015, i geisio helpu 1 biliwn o bobl dlawd mewn cartrefi sy'n dibynnu ar reis, a hynny yn Asia yn unig.. Gall cynydu Biotec wneud cyfraniad aruthrol tuag at Nodau Datblygu'r Mileniwm (MDG) erbyn 2015, sef haneru tloidi, drwy gynyddu cynnyrch cynydu i'r eithaf. Dyma ymdrech fyd-eang i anrhydeddu cyfraniad mawr Norman Borlaug, noddwr cyntaf ISAAA ac enillydd gwobr Heddwch Nobel, a achubodd 1biliwn o bobl rhag tloidi.

Ceir gwybodaeth fanwl yn Brief 42 Global Status of Commercialized Biotech/GM Crops:2008 gan Clive James. I gael rhagor o wybodeth ewch i <http://www.isaaa.org> neu cysylltwch ag ISAAA SEAsiaCenter ar +63-49-536-7216, neu ebostiwch info@isaaa.org <<mailto:info@isaaa.org>>.